

GWIRFODDOLI

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn Wirfoddolwr Aelodaeth ac Ymgysylltu.

Fel y gwyddoch, Canolfan y Mileniwm Cymru yw cartref celfyddydau perfformio'r genedl. Un o brif atyniadau diwylliannol y DU, mae'r Ganolfan yn darparu rhaglen helaeth o adloniant o safon fyd-eang, yn arddangos creadigrwydd a thalentau Cymreig, yn cydweithio gyda chwmnïau artistig rhyngwladol, ac yn cynnig dysgu creadigol a chyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned gyda'r nod o gynyddu'r mynediad at gelf a diwylliant. Rydym yn falch o fod wedi croesawu dros 16.5 miliwn o ymwelwyr ers agor yn 2004.

Nod y Ganolfan yw tanio'r dychymyg trwy greu profiadau ysbrydoledig a trawsnewidiol sy'n ehangu gorpwlion. Yn y blynyddoedd i ddod mae'r Ganolfan yn gobeithio:

- Codi dyhead pob person ifanc yng Nghymru
- Bod yn agored i bawb
- Cael ei dathlu fel un o'r canolfannau blaenllaw ym myd celfyddydau perfformio
- Creu gwaith arloesol fydd yn arddangos Cymru i'r byd

Fel **Gwirfoddolwr Ymgysylltu ac Aelodaeth** yn y Ganolfan, byddwch yn helpu i hyrwyddo Cynllun Aelodaeth y Ganolfan yn ogystal ag annog cyfraniadau i gefnogi ein gwaith elusennol. Byddwch yn ymgysylltu â chwsmeriaid, yn sôn am y buddion o fod yn Aelod a sgwrsio am ein prosiectau Dysgu Creadigol i ddenu cefnogaeth.

Byddwch hefyd yn cael gwyllo'r amrywiaeth eang o sioeau fel rhan o'n rhaglen artistig gynyddol.

Y gobaith yw y byddai'n gwirfoddolwyr yn gwneud 3 shifft yr wythnos ar gyfartaledd, ond os ydych eisiau treulio mwy o amser gyda ni yn y Ganolfan, mae'r croeso i chi wneud hynny. Mae shifft yn dueddol o fod yn ddim mwy na pedair awr, ond os ydynt yn hirach na hyn byddwn yn rhoi gwybod i'n gwirfoddolwyr.

Y Tîm Profiad Cwsmer a Datblygu



Teitl Gwirfoddolwr Ymgysylltu ac Aelodaeth

Adran Profiad Cwsmer a Datblygu

Yn atebol i Rheolwyr Profiad Cwsmer

Oriau Er mwyn cael y gorau allan o'r rhaglen rydym yn argymhell bod gwirfoddolwr yn gwneud tua 3 shifft yr wythnos (2- 4 awr y shifft)

Pwrpas y rôl I hyrwyddo Cynllun Aelodaeth y Ganolfan – cynyddu ymwybyddiaeth a nifer yr aelodau – ac ysbrydoli cwsmeriaid i gefnogi ein gwaith elusennol

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Ymgysylltu a chwmeriaid ynglŷn â Chynllun Aelodaeth y Ganolfan a'r gwaith elusennol
2. Bod yn bresennol yn y gofod Blaen y Tŷ cyn i sioe ddechrau ac mewn digwyddiadau perthnasol y Ganolfan
3. Gosod a chlirio'r orsaf Aelodau
4. Cofrestru Aelodau newydd ar ddyfeisiadau tabled y Ganolfan
5. Siarad yn rhagweithiol am brosiectau, cenhadaeth a gweledigaeth y Ganolfan
6. Annog cyfraniadau pan yn addas; a chyfathrebu pwysigrwydd cyfraniadau a sut maen nhw'n cefnogi ein gwaith elusennol
7. Cynnal a chadw at werthoedd craidd y Ganolfan
8. Rhoi adborth i'r tîm rheoli i wella sut mae'r cynllun yn rhedeg

Manyleb Person

1. Chwaraewr tîm cryf gydag arddull cyfathrebu agored dda **Hanfodol**
2. Gallu i feddwl yn greadigol a datrys problemau mewn amgylchedd prysur **Hanfodol**
3. Bod yn hyderus wrth siarad gydag aelodau o'r cyhoedd **Hanfodol**
4. Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol **Hanfodol**
5. Dros 17 oed **Hanfodol**
6. Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg **Dymunol**

Os hoffech chi dderbyn mwy o wybodaeth neu chyfle i drafod ymhellach heb ymrwymiad, cysylltwch â'n Swyddog Rhoddion Unigolion, Bethany ar bethany.helliwell@wmc.org.uk neu **029 2063 6467**



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE